**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**20 GORFFENNAF 2017**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Pwnc:** | Argymhellion Estyn – Adroddiad Cynnydd |

## 1.0 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Diweddaru aelodau'r Cyd-bwyllgor ar gynnydd wrth gyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru (Estyn, Ebrill 2016).

## 2.0 Materion i'w hystyried

2.1 Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn ystod y pythefnos yn dechrau ar 18 Ebrill 2016.

2.2 Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar eu canfyddiadau, oedd yn cynnwys y 6 argymhelliad canlynol:

- **A1**: Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.
- **A2**: Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
- **A3**: Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.
- **A4**: Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.
- **A5**: Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.
- **A6**: Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu prisio'n llawn.

2.3 Mae cynllun gweithredu ôl-arolygiad wedi'i ffurfio ac wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Busnes Rhanbarthol GwE.

2.4 Mae'r Adroddiad Cynnydd yn cynnwys naratif sy'n manylu ar y cynnydd hyd yma yn erbyn yr argymhellion.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Ymgynghori a wnaed**

7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Argymhellion Estyn: Adroddiad Cynnydd (Gorffennaf 2017)

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae elfenau o'r ymateb i Estyn a'g oblygiadau o safbwynt trefniadau llywodraethu a bydd angen mewn osod yr ymatebion ble'n berthnasol wrth ffurfioli'r fframwaith yn derfynol

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Yn gyffredinol, rwy'n cefnogi'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad sydd wedi'i ymgorffori yng 'Nghynllun Busnes Rhanbarthol GwE'. Lle bo angen, byddaf yn cynorthwyo Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i weithredu, gan gynnwys argymhelliad 'A6' Estyn, sy'n cynnwys materion gwerth am arian a chynllun cyllidol tymor canolig.